# Y Trydydd Cynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (242)

**Dyddiad: Dydd Mawrth 1 Chwefror 2011**
**Amser: 13.30**

### 13.30
### Eitem 1: Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 3 yn ôl.

………………………

### 14.19
### Eitem 2: Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

………………………

### 14.40
### Eitem 3: Datganiad gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol: fframwaith y dyfodol ar gyfer dysgu o adolygiadau achosion difrifol

………………………

### 15.24
### Eitem 4: Datganiad gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig: Coedwigaeth yng Nghymru

………………………

### 16.16
### Eitem 5: Dadl ar lythrennedd

**NDM4646 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cytuno bod llythrennedd yn hanfodol i ddysgu ac felly bod gan bob athro yng Nghymru gyfrifoldeb i sicrhau bod eu haddysgu yn helpu pobl ifanc i fod yn gwbl lythrennog;

2. Yn cytuno bod angen ar frys i godi safonau llythrennedd yng Nghymru fel mater o flaenoriaeth genedlaethol gan gynnwys ymrwymiad gan Lywodraethwyr, arweinwyr ysgolion, Penaethiaid, rhieni a dysgwyr ar draws pob haen o'r byd addysg i gyflawni cynnydd sy'n sylweddol ac yn fesuradwy.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried ariannu ysgolion yn uniongyrchol, a fyddai'n rhyddhau adnoddau hanfodol mae modd eu hailgyfeirio i'r rheng flaen i fynd i'r afael ag anllythrennedd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 0 | 37 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod y canlyniadau PISA wedi dangos mai Cymru sydd â'r safonau llythrennedd gwaethaf o holl ranbarthau'r DU a'u bod wedi dirywio ers 2006.

*Mae'r adroddiad, PISA 2009: Cyflawniadau pobl ifanc 15 mlwydd oed yng Nghymru ar gael yn:*

*http://www.nfer.ac.uk/nfer/publications/NPDZ02/NPDZ02_home.cfm?publicationID=550&title=PISA%202009:%20Achievement%20of%2015-year-olds%20in%20Wales (Saesneg yn unig)*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 32 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod bwlch cyllido o £604 y disgybl wedi cyfrannu at lefel llythrennedd is yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 32 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod cysylltiad rhwng amddifadedd a lefelau llythrennedd is ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu premiwm disgybl newydd i fynd i'r afael â hyn.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 32 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM4646 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cytuno bod llythrennedd yn hanfodol i ddysgu ac felly bod gan bob athro yng Nghymru gyfrifoldeb i sicrhau bod eu haddysgu yn helpu pobl ifanc i fod yn gwbl lythrennog;

2. Yn cytuno bod angen ar frys i godi safonau llythrennedd yng Nghymru fel mater o flaenoriaeth genedlaethol gan gynnwys ymrwymiad gan Lywodraethwyr, arweinwyr ysgolion, Penaethiaid, rhieni a dysgwyr ar draws pob haen o'r byd addysg i gyflawni cynnydd sy'n sylweddol ac yn fesuradwy.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 0 | 0 | 46 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………

**16.50**
**Eitem 6: Dadl ar Raglen Gyfalaf y GIG**

**NDM4645 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod y manteision sylweddol i'r GIG yng Nghymru o ganlyniad i'r buddsoddiad cyfalaf o £1.4bn yn y GIG yn ystod oes y Llywodraeth hon.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y sialensiau sylweddol sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru o ganlyniad i'r gostyngiadau termau real gwerth £98m mewn cyfalaf yn y GIG dros y tair blynedd nesaf.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 0 | 37 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi yr amcangyfrifir bod yr ôl-groniad o waith atgyweirio yn ysbytai Cymru ac adeiladau eraill y GIG bellach yn £460m.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 32 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi, er gwaethaf y buddsoddiad cyfalaf hwn, fod Adroddiad Cyflwr a Pherfformiad yr Ystad 2009/2010 yn dangos:

a) Cyfanswm ôl-groniad o waith atgyweirio gwerth £460 miliwn, gyda £209 miliwn am Gost Risg Sylweddol ac Uchel;

b) Mae dwy Ymddiriedolaeth Iechyd yn dal i fethu diwallu rheoliadau diogelwch tân a bennwyd ar gyfer 2005 a 2008;

c) Nid oedd dim un o'r Ymddiriedolaethau Iechyd wedi cyrraedd targed 2008 ar gyfer rheoliadau statudol a diogelwch gan gynnwys y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, asbestos, legionella, gwastraff peryglus;

d) Nid oedd dim un o'r Ymddiriedolaethau Iechyd wedi cyrraedd targed 2008 ar gyfer sicrhau bod 90% o'r ystâd iechyd o safon gadarn, yn ddiogel yn weithredol ac yn dangos dim ond ychydig o ddirywiad;

e) Amcangyfrifir bod cost cydymffurfio â'r cod diogelwch tân yn £14 miliwn, sydd £2 miliwn yn uwch na 2008-2009;

f) Mae cyfanswm cost cyflawni gwaith y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd bron yn £16 miliwn.

Yn galw am Gynllun Gweithredu strategol sy'n blaenoriaethu buddsoddiad yn y GIG sy'n mynd i'r afael â risg ddifrifol ac sy'n sicrhau hygyrchedd i bobl anabl.

*Mae Adroddiad Perfformiad a Chyflwr yr Ystad 2009/10 ar gael yn:*

*http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/254/EstCondReport0910.pdf (Saesneg yn unig)*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 32 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi'r gorau i'w gwrthwynebiad i ddefnyddio dulliau cyllido amgen er mwyn sicrhau bod modd buddsoddi arian ychwanegol yn ystâd y GIG.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 32 | 46 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM4645 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod y manteision sylweddol i'r GIG yng Nghymru o ganlyniad i'r buddsoddiad cyfalaf o £1.4bn yn y GIG yn ystod oes y Llywodraeth hon.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 0 | 14 | 46 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………

**17.41**

**Eitem 7: Dadl Cyfnod 1 ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru)**

**NDM4643 Leighton Andrews (Rhondda)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 23.24:

Yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru)

*Gosodwyd y Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 6 Rhagfyr 2010;*

*Gosodwyd adroddiad Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 21 Ionawr 2011.*

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 9 | 0 | 46 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**18.25**

**NDM4644 Leighton Andrews (Rhondda)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy’n deillio o’r Mesur Arfaethedig ynghylch Addysg (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o’r math y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 23.80(ii)(c), sy’n codi o ganlyniad i’r Mesur.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 36 | 9 | 0 | 45 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………

**18.25**
**Cyfnod pleidleisio**

Daeth y cyfarfod i ben am 18.31.

………………………

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mercher 2 Chwefror 2011.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**